17 Rhagfyr 2024

Dr Ioan Matthews
Prif Weithredwr
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Annwyl Ioan,

Diolch am rannu eich cyngor cyntaf manwl ac ystyriol ar adeg mor arwyddocaol yn natblygiad ein sefydliad, wrth inni ddatblygu ein Cynllun Strategol cyntaf. Yn arbennig, hoffwn ddiolch ichi hefyd am yr ymgysylltiad cadarnhaol a gawsom gyda chi er sefydlu Medr, a'r modd rydych chi wedi mynd ati i ddatblygu'r cyngor hwn. Mae'n glir ein bod yn rhannu'r un gwerthoedd o ran cydweithio, a'r un uchelgeisiau i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad yn hynny.

Mae ein Bwrdd wedi ystyried eich cyngor yn fanwl yn nau o'i gyfarfodydd diweddar ac wedi derbyn y prif argymhelliad, sef y dylai Medr ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol. Ein huchelgais yw y bydd y Cynllun Cenedlaethol hwn yn: cefnogi cynnydd yn y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad yn hynny, yn galluogi llwybrau di-dor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn creu amgylchedd lle anogir pob dysgwr mewn addysg drydyddol i feithrin, cynnal a defnyddio'i sgiliau Cymraeg.

Adlewyrchwyd yr argymhelliad hwn yn y Cynllun Strategol a gyflwynwyd gennym yn ddiweddar i Weinidogion Cymru. Fel y gwyddoch, mae'n rhaid i'n Cynllun Strategol gael ei gymeradwyo gan y Gweinidogion, ac rydym yn disgwyl clywed ganddynt yn y Flwyddyn Newydd. Yn amodol ar gymeradwyo ein Cynllun Strategol, rydym yn gobeithio dechrau gweithio gyda chi ac ystod o randdeiliaid eraill i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol yn y misoedd nesaf drwy gydweithredu'n unol â'r hyn a nodwyd yn eich cyngor. Bydd datblygu'r Cynllun Cenedlaethol yn ein galluogi i roi ystyriaeth lawn a manylach i'ch cyngor, wrth inni archwilio'r dulliau gorau o sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol hynny i ddysgwyr a chymunedau yng Nghymru o ran y Gymraeg.

Byddaf yn gofyn i gydweithwyr drefnu cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd inni ddechrau trafod proses ar gyfer datblygu'r Cynllun Cenedlaethol.

Edrychwn ymlaen i barhau â'n perthynas gadarnhaol â chi ar draws pob agwedd ar ein gwaith i hyrwyddo addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Yn gywir



Simon Pirotte
Prif Swyddog Gweithredol
Medr